Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL

# Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru: Hydref i Ragfyr 2021

Mae'r arolygon deiliadaeth yn darparu gwybodaeth am dueddiadau yn y galw am lety twristiaeth yng Nghymru ar gyfer Hydref i Ragfyr 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 12 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 12 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Newid mewn pwysoli

Gwestai

Tai llety a gwely a brecwast

Hunanarlwyo

Cartrefi gwyliau carafanau statig

Meysydd carafanau teithio a gwersylla

Hosteli

Cyd-destun

Manylion cyswllt

# Cyflwyniad

Mae'r diweddariad hwn yn crynhoi canlyniadau llinell uchaf Arolwg Defnydd Llety Cymru. Adroddir ar ganlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2021 o'i gymharu â 2019 a 2020, yn ogystal â'r cyfartaleddau chwarterol ar gyfer y cyfnodau hyn. Yr eithriad i hyn yw'r sectorau gwestai a thai llety/gwely

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

a brecwast lle na ellir cymharu â 2019 oherwydd newid methodolegol yn 2020 a 2021. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro a gallant fod yn amodol ar adolygiad terfynol.

## Prif bwyntiau

- Yn ystod mis Hydref, cynyddodd defnydd ystafelloedd gwestai 49 pwynt canran o gymharu â'r un mis yn 2020 pan oedd defnydd ystafelloedd ar 37%, pan oedd llawer o westai ddim yn gweithredu'n llawn o hyd yn dilyn cyfyngiadau COVID-19. Gwelodd Tachwedd a Rhagfyr lefelau defnydd ystafelloedd uwch na'r flwyddyn flaenorol (69% a 56% o gymharu â 37% a 25% yn y drefn honno). Dilynodd cyfraddau defnydd gwelyau patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn.
- Ym mis Hydref, cofnododd gwestai/gwely a brecwast lefelau defnydd ystafelloedd o 61%, 10 pwynt canran yn is na mis Medi. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn ystod dau fis olaf y flwyddyn yn 32% ym mis Tachwedd a 29% ym mis Rhagfyr, er y dylid nodi bod maint y sampl yn fach ac felly dylid ei drin yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Dilynodd cyfraddau defnydd gwelyau patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn.
- Ar draws y sector hunanaddarpar, gwnaeth lefelau defnydd unedau yn dda yn ystod mis Hydref ar 74%, sef 23 pwynt canran yn uwch na'r un mis yn 2020. Ym mis Tachwedd gwelwyd lefelau yn gostwng i 34%, ychydig yn is na'r ddwy flynedd flaenorol gan 4 pwynt canran. Ym mis Rhagfyr gwelwyd cynnydd mewn defnydd unedau gyda lefelau o 55%, 15 a 25 pwynt canran yn uwch nag yn 2019 a 2020.
- Yn y sector carafanau statig a chartrefi gwyliau yn ystod mis Hydref roedd defnydd yn 93%, sy'n cyfateb i fis Medi blaenorol, gyda chynnydd amlwg o 15 a 30 pwynt canran yr un ar Hydref 2019 a 2020. Roedd defnydd lleiniau mis Tachwedd, 58%, ychydig yn uwch na 2019 ac nid oedd data ar gyfer 2020 ar gael. Gyda llawer o weithredwyr yn cau am y tymor, nid oes data ar gyfer mis Rhagfyr ar gael.
- Yn yr un modd â'r meysydd carafanau statig a gwyliau, gostyngodd defnydd lleiniau ar draws y meysydd carafanau teithio a gwersylla yn ystod mis Hydref ond roedd yn dal yn uwch na defnydd lleiniau yn 2019 a 2020 (29% a 10%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Ym mis Hydref, cyrhaeddodd defnydd gwelyau ar draws y sector hosteli 38%, 32 pwynt canran yn uwch na’r hyn a gofnodwyd yn 2020. Cododd lefelau defnydd gwelyau ym mis Tachwedd i 38% o’i gymharu â dim ond 16% yn 2020, fodd bynnag, roedd hyn yn dal yn is na’r hyn a welwyd ym mis Tachwedd 2019 (46%). Gwelwyd patrwm tebyg ym mis Rhagfyr gyda lefelau defnydd yn 31%, sy’n sylweddol uwch na Rhagfyr 2020 ond nid ar yr un lefelau â mis Rhagfyr 2019 (42%).

## Newid mewn pwysoli

Yn ystod sawl mis yn 2020 a thri mis cyntaf 2021, nid oedd nifer sylweddol o westai, tai llety/gwely a brecwast ar agor oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a oedd yn cyfyngu ar weithrediadau llety â gwasanaeth. Golygodd hyn mai dim ond nifer fach o westai a thai llety/gwely a brecwast a ddarparodd data, a effeithiodd ar y pwysoli. Mae pwysoli data deiliadaeth wedi'i gynllunio i addasu ar gyfer gwahanol lefelau ymateb ar draws rhanbarthau a bandiau maint ond pan fydd maint y sampl yn fach gellir gorliwio effaith y pwysiad ar gyfer rhai rhanbarthau neu fandiau maint. Yn ystod misoedd cyfnod clo COVID-19 pan oedd maint samplau mewn rhai rhanbarthau mewn ffigurau sengl, byddai hyn wedi arwain at sefydliadau unigol yn dominyddu'r canlyniadau. Felly, mae'r data yn 2020 a 2021 yn cael ei gyflwyno heb ei bwysoli a dim ond yn adlewyrchu lefelau deiliadaeth gwestai a thai llety/gwely a brecwast a oedd ar agor yn y mis perthnasol. Oherwydd hyn, dylid nodi na ellir dehongli bod data deiliadaeth gwestai a thai llety/gwely a brecwast a ddangosir yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2020 a 2021 yn cynrychioli'r farchnad llety â gwasanaeth yn ei chyfanrwydd, ac o ystyried y gwahaniaethau methodolegol, nid oes modd ei gymharu â data 2019 a ddangosir yn adrannau gwestai a thai llety/gwely a brecwast yr adroddiad hwn.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Gwestai

**Siart 1: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd misol a blynyddol ar gyfartaledd, gwestai, 2019 i 2021**




* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Yn ystod mis Hydref, gwelodd ddefnydd ystafelloedd gwestai gynnydd o 49 pwynt canran o gymharu â'r un mis yn 2020 pan oedd defnydd ystafelloedd ar 26%, pan oedd llawer o westai yn dal ddim yn gweithredu'n llawn yn dilyn cyfyngiadau COVID-19. Gwelodd Tachwedd a Rhagfyr lefelau defnydd ystafelloedd uwch na'r flwyddyn flaenorol (69% a 56% o gymharu â 37% a 25% yn y drefn honno). Dilynodd cyfraddau defnydd gwelyau patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn.


Roedd y cyfartaledd blynyddol ar draws y cyfnod 12 mis yn sylweddol uwch yn 2021 ar 64%, sef cynnydd o 19 pwynt canran ers 2020.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.


**Siart 2: Deiliadaeth ystafelloedd chwarterol, gwestai, 2019 i 2021**




* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Roedd gan westai y lefelau defnydd ystafelloedd ail uchaf ar gyfer 2021 yn y pedwerydd chwarter (Hydref i Ragfyr) ar 67%. Roedd hyn 38 pwynt canran yn uwch na'r un cyfnod yn 2020 pan oedd cyfyngiadau gweithredu COVID-19 yn dal i effeithio ar fusnesau.

**Siart 3: RevPAR misol a blynyddol, gwestai, 2019 i 2021**




* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Y refeniw cyfartalog fesul ystafell oedd ar gael ar gyfer misoedd y gaeaf, sef Hydref, Tachwedd a Rhagfyr oedd £58.51, £51.79 a £37.87 yn y drefn honno. Roedd gan Hydref y refeniw uchaf fesul ystafell oedd ar gael yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, sy'n sylweddol uwch na'r un mis yn 2020 (£12.46). Y refeniw blynyddol fesul ystafell oedd ar gael oedd £46.63, cynnydd o £20.85 o gymharu â 2020.

## Tai llety a gwely a brecwast

Ym mis Hydref, cofnododd lefelau defnydd ystafelloedd gwestai/gwely a brecwast o 61%, 10 pwynt canran yn is na mis Medi blaenorol. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn ystod dau fis olaf y flwyddyn yn 32% ym mis Tachwedd a 29% ym mis Rhagfyr. Roedd defnydd ystafelloedd ar gyfartaledd ar gyfer 2021 i gyd yn sylweddol uwch na’r flwyddyn flaenorol er y dylid nodi bod maint y sampl yn fach ac felly dylid ei drin yn ofalus wrth ddehongli’r canlyniadau hyn. Dilynodd cyfraddau defnydd gwelyau patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn.

**Siart 4: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd misol a blynyddol ar gyfartaledd, tai llety/gwely a brecwast, 2019 i 2021**





* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 5: Ystafelloedd chwarterol, tai llety/gwely a brecwast, 2019 i 2021**




* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Ar draws y sector tai llety/gwely a brecwast, gwnaeth defnydd ystafelloedd yn chwarter olaf y flwyddyn gyrraedd 44%, 21 pwynt canran yn uwch na'r un chwarter yn 2020. Fodd bynnag, dylid nodi bod maint y sampl yn weddol fach, a dylid bod yn ofalus wrth drin y canlyniadau.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Hunanarlwyo

Siart 6: Deiliadaeth unedau misol a blynyddol ar gyfartaledd, hunanarlwyo, 2019 i 2021




Ar draws y sector hunanarlwyo, gwnaeth lefelau defnydd unedau yn dda yn ystod mis Hydref ar 74%, sef 23 pwynt canran yn uwch na'r un mis yn 2020. Ym mis Tachwedd gwelwyd lefelau yn gostwng i 34%, ychydig yn is na'r ddwy flynedd flaenorol o 4 pwynt canran yn y drefn honno. Ym mis Rhagfyr gwelwyd cynnydd mewn defnydd unedau gyda lefelau o 55%, 15 a 25 pwynt canran yn uwch nag yn 2019 a 2020.


Y cyfartaledd blynyddol yn y sector hunanarlwyo oedd 61%, cynnydd o 4 a 9 pwynt canran yn y drefn honno ar y ddwy flynedd flaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.


**Siart 7: Deiliadaeth unedau chwarterol, hunanarlwyo, 2019 i 2021**




Roedd defnydd unedau chwarterol ar gyfer Hydref i Ragfyr yn 54%, sy’n uwch nag yn chwarter olaf y flwyddyn yn 2019 a 2020.

# Cartrefi gwyliau carafanau statig

**Siart 8: Deiliadaeth lleiniau statig misol/tymhoro/blynyddol ar qvartaledd, 2019 i 2021**




Roedd defnydd yn y sector carafanau statig a chartrefi gwyliau yn ystod mis Hydref yn 93%, yn debyg i fis blaenorol Medi gyda chynnydd amlwg o 15 a 30

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

pwynt canran yr un ar Hydref 2019 a 2020, yn rhannol oherwydd parc gwyliau mawr yr oedd ar gau ym mis Hydref 2020 ond ar agor ym mis Hydref 2021. Mae hyn felly wedi cael effaith ar y lefelau defnydd uchel a welwyd yn ystod mis Hydref 2021. Roedd defnydd lleiniau mis Tachwedd, sef 58%, ychydig yn uwch na 2019 ac nid oedd data ar gyfer 2020 ar gael. Gyda llawer o weithredwyr yn cau am y tymor, nid oes data ar gyfer mis Rhagfyr ar gael.

Yn ystod y cyfnod 6 mis Mai i Hydref gwelwyd y defnydd lleiniau statig uchaf ar draws y tair blynedd dan sylw (94%). Gwelwyd darlun tebyg ar draws y flwyddyn gyfan, gyda’r cyfartaledd blynyddol yn 2021 (91%), 6 ac 8 pwynt canran yn uwch na 2019 a 2020.

## Meysydd carafanau teithio a gwersylla

**Siart 9: Deiliadaeth lleiniau teithiol misol/tymhorol/blynyddol ar gyfartaledd, 2019 i 2021**




Yn yr un modd â’r meysydd carafanau statig a gwyliau, gostyngodd ddefnydd lleiniau ar draws y meysydd carafanau teithio a gwersylla o fis i fis ond roedd lefelau defnydd lleiniau ym mis Hydref yn dal i fod yn uwch na’r lefelau a welwyd yn 2019 a 2020 (29% a 10% yr un). Nid yw data ar gyfer Tachwedd a Rhagfyr ar gael. Yn y prif gyfnod o 6 mis i'r sector o fis Mai i Hydref gwelwyd cynnydd yn nefnydd lleiniau o 3 ac 14 pwynt canran ar 2018 a 2020 yn y drefn honno.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ar draws y flwyddyn gyfan, roedd lefelau defnydd lleiniau wedi cynyddu 2 pwynt canran, i fyny o 31% yn 2020 i 43% eleni.

## Hosteli

**Siart 10: Deiliadaeth gwelyau misol a blynyddol ar gyfartaledd, hosteli, 2019 i 2021**





Ym mis Hydref, cyrhaeddodd defnydd gwelyau ar draws y sector hosteli 38%, 32 pwynt canran yn uwch na’r hyn a gofnodwyd yn yr un mis yn 2020. Cododd lefelau defnydd gwelyau ym mis Tachwedd i 38% o gymharu â dim ond 16% yn 2020 – fodd bynnag, roedd hyn yn dal yn is na’r lefelau a welwyd ym mis Tachwedd 2019 (46%). Gwelwyd patrwm tebyg ym mis Rhagfyr gyda lefelau deiliadaeth yn 31%, sy’n sylweddol uwch na Rhagfyr 2020. Cyrhaeddodd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer y flwyddyn 37%, nid ar lefel 2019 o 54% ond yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn 2020 (25%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 11: Deiliadaeth gwelyau chwarterol, hosteli, 2019 i 2021**




Cododd y lefelau defnydd ar gyfer chwarter olaf 2021 yn amlwg i 36%, i fyny 26 pwynt canran o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020, ond yn dal heb gyrraedd y lefelau a welwyd yn yr un chwarter yn 2019 (47%).

# Cyd-destun

Ar ddechrau 2021, roedd y cyfnod clo (Lefel Rhybudd 4) yn dal i fod ar waith ac yn parhau drwy gydol mis Ionawr, Chwefror, tan 27 Mawrth pan ddaeth Cymru y genedl gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau wrth i'r cyfyngiadau aros yn lleol ddod i ben. Caniatawyd i lety twristiaid hunangynhwysol, fel eiddo hunanarlwyo a rhai gwestai, ailagor.

Ar 26 Ebrill, cafodd cyfyngiadau eu llacio ymhellach yng Nghymru wrth i amwynderau awyr agored, megis pyllau nofio, ailagor, ynghyd ag atyniadau awyr agored a gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl a chaniatawyd partïon priodas ar gyfer hyd at 30 o bobl wrth i letygarwch awyr agored ailagor.

O 17 Mai, cafodd y sefydliadau llety oedd yn weddill a llety dan do eu hailagor ynghyd â thafarndai a bwytai a oedd â'r hawl i weini diodydd y tu fewn unwaith eto, a chafodd orielau ac amgueddfeydd eu hailagor hefyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Prif linellau amser yn 2020 a 2021

- Cyfnod Clo Cenedlaethol y DU o 23 Mawrth 2020.
- 6 Gorffennaf 2020 Cymru yn codi ei chyfyngiadau teithio “Aros yn Lleol” a chaniatawyd i atyniadau awyr agored ailagor.
- Daeth y cyfnod clo i ben 11 Gorffennaf ar gyfer busnesau llety heb gyfleusterau a rennir.
- Llwyddodd llety i dwristiaid gyda chyfleusterau a rennir megis safleoedd gwersylla i ailagor o 25 Gorffennaf ond arhosodd unrhyw gyfleusterau a rennir ar y safle ar gau, megis pyllau nofio, cyfleusterau hamdden, cawodydd a rennir a blociau toiledau.
- Cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan (3 i 31 Awst 2020).
- 23 Hydref i 9 Tachwedd 2020 Cyfnod atal byr 17 diwrnod yng Nghymru.
- Daeth cyfyngiadau newydd i rym o ganol nos 19 Rhagfyr 2020 (lefel rhybudd 4): manwerthu nad yw’n hanfodol, gwasanaethau cyswllt agos, campfeydd a chanolfannau hamdden, lletygarwch a llety yn cael eu cau. Cyfyngiadau aros gartref. Cafodd y rheolau eu llacio dros dro ar gyfer Dydd Nadolig.
- Cyfyngiadau cyfnod clo (rhybudd lefel 4) yn parhau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021.
- 27 Mawrth 2021 Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau wrth i'r cyfyngiadau aros yn lleol ddod i ben. Caniatawyd i lety twristiaid hunangynhwysol, fel bythynnod a llety mewn gwestai heb wasanaethau cyffredin, ailagor.
- 12 Ebrill 2021 caniatawyd i bobl o Gymru deithio i rannau eraill o’r DU, a chaniatawyd i ymwelwyr y DU deithio i Gymru.
- 26 Ebrill 2021 pyllau nofio awyr agored, atyniadau awyr agored, gweithgareddau awyr agored wedi’u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl a phartïon priodas ar gyfer hyd at 30 o bobl yn cael eu caniatáu wrth i letygarwch awyr agored ailagor.
- 17 Mai 2021 llety i ymwelwyr â gwasanaethau cyffredin, a llety dan do yn ailagor wrth i’r cyfyngiadau gael eu llacio ymhellach, gyda thafarndai a bwytai yn cael gweini diodydd ac ail-agorwyd orielau ac amgueddfeydd hefyd.
- 7 Awst 2021 gyda rhai eithriadau, megis gorfodi gwisgo masg mewn lleoliadau penodol, codwyd y mwyafrif o gyfyngiadau cysylltiedig â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

COVID-19 yr oedd yn weddill yng Nghymru.
- 26 Rhagfyr 2021 Cymru yn symud i Lefel Rhybudd COVID 2, lle mae cyfyngiadau ar nifer y bobl mewn cynulliadau cymdeithasol, a phellter cymdeithasol dau fetr yn dychwelyd.

## Maint sampl

Yr holl feintiau samplau misol yn ôl sector a ddangosir isod yw'r busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata am y mis hwnnw.

## Tabl 1: Maint sampl misol yn ôl sector, 2021

| | Gwestai: ar agor | Gwestai: ar gau | Tŷ llety a, Gwely a brecwast: ar agor | Tŷ llety a, Gwely a brecwast: ar gau | Hunan-ddarpar: ar agor | Hunan-ddarpar: ar gau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | 50 | 131 | 3 | 25 | 69 | 533 |
| **Chwefror** | 59 | 124 | 3 | 25 | 34 | 568 |
| **Mawrth** | 68 | 115 | 4 | 24 | 230 | 326 |
| **Ebrill** | 129 | 43 | 4 | 11 | 275 | 28 |
| **Mai** | 155 | 18 | 14 | 3 | 306 | 6 |
| **Mehefin** | 157 | 18 | 15 | 3 | 306 | 4 |
| **Gorffennaf** | 158 | 1 | 15 | 2 | 303 | 0 |
| **Awst** | 164 | 2 | 14 | 2 | 308 | 0 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Medi** | 167 | 1 | 15 | 2 | 307 | 2 |
| **Hydref** | 162 | 1 | 14 | 2 | 305 | 2 |
| **Tachwedd** | 161 | 3 | 12 | 5 | 223 | 83 |
| **Rhagfyr** | 158 | 4 | 11 | 7 | 251 | 55 |

## Tabl 1: Maint sampl misol yn ôl sector, 2021 (parhau)

| | Carafanau statig: ar agor | Carafanau statig: ar gau | Carafanau teithiol: ar agor | Carafanau teithiol: ar gau | Hosteli: ar agor | Hosteli: ar gau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | 0 | 19 | 0 | 25 | 0 | 22 |
| **Chwefror** | 0 | 19 | 0 | 25 | 0 | 21 |
| **Mawrth** | 0 | 19 | 0 | 25 | 2 | 20 |
| **Ebrill** | 15 | 2 | 8 | 7 | 5 | 15 |
| **Mai** | 16 | 1 | 12 | 1 | 18 | 1 |
| **Mehefin** | 17 | 0 | 13 | 0 | 19 | 0 |
| **Gorffennaf** | 18 | 0 | 13 | 0 | 18 | 0 |
| **Awst** | 18 | 0 | 12 | 1 | 18 | 0 |
| **Medi** | 19 | 0 | 11 | 1 | 19 | 0 |
| **Hydref** | 16 | 3 | 9 | 6 | 19 | 0 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Carafanau statig: ar agor | Carafanau statig: ar gau | Carafanau teithiol: ar agor | Carafanau teithiol: ar gau | Hosteli: ar agor | Hosteli: ar gau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | 12 | 7 | 4 | 12 | 16 | 0 |
| **Rhagfyr** | 0 | 19 | 0 | 16 | 19 | 0 |

## Manylion cyswllt

Phil Nelson
Rhif ffôn: 0300 025 3187
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 28/2022
ISBN digidol 978-1-80364-006-8

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru: Hydref i Ragfyr 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.